taflen wybodaeth

Diffyg talu

Os ydych wedi derbyn rhybudd diffyg talu yn bygwth camau yn eich erbyn dyma rywfaint o wybodaeth bwysig i'ch helpu.

Peidiwch ag anwybyddu'r broblem.

Mae pethau y gallwch eu gwneud a phobl a all helpu.

Ond mae angen i chi weithredu NAWR!

- **Darllenwch y rhybudd diffyg talu'n ofalus.** Mae'n esbonio beth sydd angen i chi ei wneud, a beth allai ddigwydd os na fyddwch yn ymateb. Os nad ydych yn siŵr beth mae'n ei olygu, gofynnwch i'r benthyciwr neu gynghorydd dyledion.
- **Ceisiwch help a chyngor am ddim.** Mae eich hawliau a'ch opsiynau'n dibynnu ar y math o gytundeb, a gall y gyfraith fod yn gymhleth. Gallwch gael help a chyngor annibynnol am ddim gan nifer o sefydliadau – trowch drosodd am fanylion.
- **Gall cynghorydd dyledion drafod ar eich rhan.** Gall awgrymu ffyrdd o ddelio â'r broblem a gwneud yn siŵr y caiff y dyledion pwysicaf eu talu gyntaf.
- **Efallai y gallwch ofyn i lys am fwy o amser i ad-dalu dyled** – ond dim ond mewn rhai amgylchiadau. Siaradwch â chynghorydd dyledion cyn ystyried cymryd camau mewn llys.

Os na wnewch rywbeth yn fuan, gall y benthyciwr gymryd camau yn eich erbyn.

Er enghraifft, drwy fynnu eich bod yn talu'r arian sy'n ddyledus, neu drwy adfeddiannu nwyddau wedi'u hurbwrcasu. Os yw'r benthyciad wedi'i sicrhau yn erbyn eich cartref, gallech golli eich cartref. Gallai'r diffyg talu aros ar eich ffeil credyd am chwe blynedd, gan ei gwneud yn fwy anodd i chi gael credyd.

Trowch drosodd am fanylion am ble i gael help a chyngor.

Help a chyngor

Gallwch gysylltu â'r sefydliadau nid er elw canlynol am gyngor cyfrinachol a diduedd am ddim.

Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, ffoniwch **0808 808 4000** neu ewch i **www.nationaldebtline.co.uk** i gael cyngor a gwybodaeth am ddyledion.

Gwasanaeth Cwnsela Credyd Defnyddwyr

I gael cyngor ar ddyledion ledled y DU – gan gynnwys Gogledd Iwerddon – ffoniwch **0800 138 1111** neu ewch i **www.cccs.co.uk**

Cyngor ar Bopeth

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyledion a materion eraill, ewch i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth agosaf – edrychwch yn y llyfr ffôn am y cyfeiriad.

Cyswllt Defnyddwyr

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, ffoniwch **08454 04 05 06** neu ewch i **www.consumerdirect.gov.uk** i gael cyngor a gwybodaeth gyffredinol i ddefnyddwyr.

Mae gwefan Cyswllt Defnyddwyr yn cynnwys gwybodaeth am gredyd a chytundebau llogi a rhestr lawnach o asiantaethau cyngor annibynnol.

ConsumerLine

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch **0845 600 62 62** neu ewch i **www.consumerline.org** i gael cyngor cyffredinol i ddefnyddwyr.

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol

I gael cyngor am ddim ffoniwch **0845 345 4 345** os ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol neu ewch i **www.communitylegaladvice.org.uk**

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Os oes gennych gŵyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, gall Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol eich helpu – ffoniwch **0845 080 1800** neu ewch i **www.financial-ombudsman.org.uk**

Ffoniwch **0800 389 3158** i ofyn am fformat gwahanol.

Paratowyd gan y Swyddfa Masnachu Teg
Cod cynnyrch OFT966w
Argraffiad 01/08
℗ Hawlfraint y Goron 2008